

## Mae Stryd Ysgol yn dod i Ysgol Gynradd Pwll Coch!

### Teithio Llesol yn Ysgol Gynradd Pwll Coch

Ers 2019 mae gan Gyngor Caerdydd Swyddogion Teithio Llesol yn gweithio mewn ysgolion ledled Caerdydd. Mae'r swyddogion yn gweithio gydag ysgol i greu Cynllun Teithio Llesol pwrpasol ar gyfer yr ysgol i helpu teuluoedd a staff i deithio'n fwy llesol, a'u helpu i gyflawni'r camau gweithredu. Mae'r camau hyn yn seiliedig ar y problemau a geir yn yr ysgol. Er enghraifft, roedd rhai o'r problemau a oedd yn wynebu Ysgol Gynradd Pwll Coch yn cynnwys tagfeydd y tu allan i gatiau'r ysgol, yn enwedig ar Lawrenny Avenue.

Fel rhan o'r Cynllun Teithio Llesol, mae'r ysgol wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i sefydlu Stryd Ysgol.



Mae Stryd Ysgol yn stryd ger ysgol lle caiff traffig ei gyfyngu ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Bydd Lawrenny Avenue yn Stryd Ysgol o **8:15am** i **9:15am** ac o **2:30pm** i **3:45pm**. Mae Strydoedd Ysgol ar waith o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod y tymor yn unig. Dim ond cerbydau sydd â thrwyddedau dilys ar Stryd Ysgol gaiff yrru ar hyd y stryd honno.

**Nodwyd y bydd cerbydau sydd â thrwyddedau yn dal yn gallu cael mynediad i Lawrenny Avenue yn ystod yr amseroedd hyn.**

### Beth yw diben hyn oll?

Nododd Papur Gwyn Cyngor Caerdydd ar Drafnidiaeth yn 2020 chwe rheswm pam bod angen inni newid y ffordd y mae pobl yn teithio o amgylch y ddinas - sef:

1. **Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd**
2. **Aer Glân** - Traffig ffyrdd sy'n bennaf gyfrifol am lygredd aer. Plant sy'n dioddef fwyaf o ansawdd aer gwael.
3. **Creu Cymunedau Diogel a Hapus** - Prif achos marwolaeth ymysg plant rhwng 5 a 14 oed yw cael eu taro gan gerbyd.
4. **Dinas i Bawb** - Dinas sy'n agored ac yn hygyrch i bawb
5. **Rheoli Dinas sy'n Tyfu** - Dros y 10 mlynedd nesaf, disgwylir mai Caerdydd fydd y ddinas sy'n tyfu gyflymaf yn y DU.
6. **Mynd i'r Afael â Thagfeydd a Chefnogi Busnes** - Mae gyrwyr yng Nghaerdydd yn colli 143 awr y flwyddyn drwy gael eu dal mewn traffig yn ystod oriau brig. Mae hynny tua 19 diwrnod gwaith llawn ar gost o tua £1,056 y gyrrwr.

Un o'r ffyrdd o newid y ffordd y mae pobl yn teithio yw annog pobl i gerdded a beicio mwy ledled y ddinas. Cerdded a beicio ydy'r ffyrdd glanaf, iachaf a rhataf o deithio o amgylch y ddinas. Ar gyfer llawer o deithiau byrrach gallant hefyd fod y cyflymaf, sy'n aml yn wir o ran teithio i'r ysgol.



## Pwy all gael trwydded Stryd yr Ysgol?

- Preswylwyr ar gyfer eu cerbydau eu hunain
- Preswylwyr â Bathodynau Glas
- Deiliaid Bathodyn Glas sydd angen mynediad i'r ysgol.

Bydd pob trwydded yn rhithwir a gwneir cais amdani drwy wefan y Cyngor.  
Ni chodir tâl am y trwyddedau hyn.

**Nodwch nad oes modd trosglwyddo trwyddedau rhwng parthau.  
Y cyfeirnod parth ar gyfer Lawrenny Avenue yw SZ7.**

## Beth fydd yn digwydd os aiff cerbyd i Stryd Ysgol heb drwydded?

Mae'n drosedd mynd i mewn Stryd Ysgol heb drwydded ddilys yn ystod y cyfnodau pan fo'r cyfyngiadau ar waith. Defnyddir camerâu gorfodi i fonitro cerbydau sy'n dod i mewn yn ystod yr amseroedd hyn a gallai troseddwr gael dirwy (Hysbysiad Tâl Cosb - HTC) o £70, neu £35 os telir y ddirwy cyn pen 14 diwrnod.

Bydd arwyddion sy'n fflachio ar ddechrau'r stryd i rybuddio gyrwyr.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os ydych eisoes yn teithio'n llesol fel teulu:	Os ydy'r teulu teithio mewn car o bryd i'w gilydd:
Gallwch barhau i deithio fel y gwnewch fel arfer. <b>Cofiwch y bydd cerbydau sydd â thrwyddedau yn gallu cael mynediad i Lawrenny Avenue yn ystod yr amseroedd hyn.</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Allech chi ddechrau cerdded, beicio neu sgwtio o'ch cartref? Hyd yn oed pe baech ond yn rhoi cynnig arni unwaith neu ddwywaith yr wythnos?</li><li>• Os yw eich cartref yn rhy bell, oes modd i chi barcio'n ddiogel ymhellach i ffwrdd a cherdded y 10 munud olaf? Bydd hyn hefyd yn cynyddu faint o ymarfer corff y byddwch chi a'ch plant yn ei wneud bob dydd.</li><li>• A allai eich plentyn deithio rhan o'r ffordd yn annibynnol?</li></ul>

Bydd Stryd Ysgol yn creu amgylchedd mwy diogel i'ch plant a chymuned yr ysgol drwy leihau nifer y cerbydau sy'n teithio heibio'r ysgol. Rydym wrth ein bodd y bydd gan eich ysgol Stryd Ysgol ac y bydd yn lle mwy diogel i deithio iddo. Helpwch ni i'w gadw'n ddiogel drwy ddefnyddio dulliau teithio sydd mor llesol â phosibl.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan:

<https://keepingcardiffmoving.co.uk/cy/projects/schools/>.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, anfonwch e-bost i: [strydoeddysgol@caerdydd.gov.uk](mailto:strydoeddysgol@caerdydd.gov.uk)

